Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd, 3 Medi 2020, drwy Zoom

Yn bresennol:	Sue Davies (SD) (Cadeirydd) Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr) Kirsty Payne (KP) (Ysgrifenyddiaeth) Claire Williams (CW) Mike James (MJ) John Graystone (JG) Martin Price (AS) Davina Payne (DP) Rosemary Jones OBE (RJ) Paul Marshall (PM)
Ymddiheuriadau gan:	Michaela Renkes

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Croesawodd SD bawb i'r cyfarfod. Mae Michaela Renkes wedi anfon ymddiheuriadau, felly nid oes cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol. Ni chofrestrwyd unrhyw wrthdaro buddiannau. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Aeth SD drwy'r cofnod gweithredu:

- Cam Gweithredu 84 – ar agenda'r cyfarfod hwn
- Mae camau gweithredu 105, 115 a 134 wedi'u gohirio oherwydd pandemig COVID-19
- Cam Gweithredu 143 – cadarnhaodd TE fod hyn yn mynd rhagddo gyda Charlotte Thomas sy'n llunio strategaeth ymgysylltu gwleidyddol. Marcio fel cam parhaus
- Cam Gweithredu 144 – methu bwrw ymlaen oherwydd pandemig COVID-19. Nodi fel gohiriwyd
- Cam Gweithredu 145 – ar agenda'r cyfarfod hwn
- Cam Gweithredu 146 – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf (20 Tachwedd)
- Cam Gweithredu 148 – yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod

Fe wnaeth y Bwrdd ddymuno'n dda i'r Cymdeithion yn ystod eu hwythnos gyntaf o'r tymor ac rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â Charlotte Thomas (rheolwr cyfathrebu) yng nghyfarfod y dyfodol.

Mae angen cynnal cyfarfod bwrdd eithriadol ddiwedd mis Medi i glywed cyflwyniad yr adroddiad Archwilio Allanol gan Archwilio Cymru ac i glywed yr adroddiad gan y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan fod hwn wedi'i ohirio ac, felly, nid yw'n bosibl adrodd amdano yn y cyfarfod hwn. Bydd KP yn trefnu dyddiad addas yn dilyn y cyfarfodydd. Mae gwrthdaro â chyfarfod nesaf y bwrdd ar 19 Tachwedd felly bydd **KP yn dosbarthu dyddiadau amgen yn dilyn y cyfarfod.**

2. Diweddariad ar Ailwampio'r Bwrdd

Mae Michaela Renkes wedi ymddiheuro am y cyfarfod hwn felly nid oes diweddariad swyddogol gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd SD fod cyfarfodydd pellach wedi'u cynnal rhyngddi hi, Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyrff Cyhoeddus a bod cynnig ar gyfer ailwampio'r bwrdd wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog Addysg i'w gymeradwyo. Mae SD yn gobeithio y bydd y Gweinidog Addysg yn ymateb yn ffurfiol cyn mis Tachwedd a gellir rhoi gwybod i aelodau'r bwrdd am y canlyniad yng nghyfarfod nesaf y bwrdd.

3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Cyflwynodd JG yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol ar 29 Mehefin 2020.

Cyflwynwyd adroddiad gwariant chwarter 1 i'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw amrywiadau o bwys a rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor o sefyllfa ariannol yr Academi Arweinyddiaeth.

Mae'r tîm rheoli wedi diweddaru'r gyllideb oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID-19. Dyma'r ail adolygiad o'r gyllideb; crëwyd y ddogfen wreiddiol ym mis Chwefror 2020, a chafwyd y diwygiad cyntaf ym mis Ebrill 2020 yn dilyn y toriadau i grant yr Academi Arweinyddiaeth. Nid yw'r Academi Arweinyddiaeth yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb am weddill y flwyddyn, sy'n golygu bod y gyllideb ar gyfer y gweithgareddau hyn wedi'i hailddyrannu i ariannu gwefan newydd. Mae'r pwyllgor yn dawel eu meddwl bod lefel o hyblygrwydd yn y gyllideb pe bai sefyllfa'r pandemig yn newid yn sylweddol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai'r gyllideb ddiweddaraf gael ei llofnodi gan y pwyllgor**. Bydd KP yn dosbarthu'r ddogfen a bydd y bwrdd yn cadarnhau ei bod wedi'i llofnodi yn y cyfarfod nesaf.**

Mae rôl y cynorthwyydd gweinyddol wedi dod i ben. Cynhaliwyd y broses yn deg, ac ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau yn erbyn y broses. Dechreuodd y Rheolwr Cyfathrebu (Charlotte Thomas) ar ei rôl ar 3 Awst ac mae wedi gwneud cynnydd da hyd yma. Cafodd rôl y Rheolwr Busnes ei huwchraddio i'r Pennaeth Gweithrediadau o 1 Awst 2020 i gyd-fynd â dyddiad cychwyn y rheolwr cyfathrebu. Dechreuodd 2 o'r 3 secondiad ar 1 Medi, a gobeithio y bydd y trydydd yn cael ei gyflwyno'n raddol o ganol Medi ymlaen.

Adolygwyd cylch gorchwyl y pwyllgor ac awgrymwyd gwelliannau.

4. Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn erbyn diweddariad y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Llesiant

Gan fod yr adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod gwyliau'r haf ar gyfer addysg, cyflwynodd TE ei hadroddiad mewn fformat arall y tro hwn:

Dechreuodd Charlotte Thomas ar rôl y Rheolwr Cyfathrebu ar 3 Awst ac mae wedi cael dechrau cadarnhaol iawn gyda'r allbwn canlynol:

- Mwy o ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol
- Creu Canllawiau Marchnata ar gyfer darparu Gwaith Cymeradwyo.
- Creu Canllawiau Cyfathrebu Hygyrch
- Datblygu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Medi 2020 – Mawrth 2021
- Ailgynllunio cylchlythyr digidol yr Academi – tanysgrifiad agored i bawb

Derbyniwyd 4 cais hyd yma ar gyfer swydd wag y cyfarwyddwr cynorthwyol gyda 2 ymholiad pellach i'w dilyn gan TE. Mae gan y tîm agwedd gadarnhaol iawn o ran beth mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gallu ei gyflawni bellach gyda thîm ehangach.

Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru fel partner strategol er i lawer o gyfarfodydd gael eu canslo dros gyfnod yr haf oherwydd gwyliau blynyddol.

Mae'r tîm (gan gynnwys 3 secondai) yn cymryd rhan mewn digwyddiad adeiladu tîm ar 5 Medi sy'n canolbwyntio ar wella gweledegd drwy ymchwiliad gwerthfawrogol, er y bydd hyn yn naturiol yn gwella drwy benodi'r rheolwr cyfathrebu.

Bydd cymdeithion cohort 3 yn dechrau eu hail brofiad dysgu yn ystod hanner cyntaf tymor yr hydref.

Bydd galwad newydd am gymeradwyaeth yn agor yn ail hanner tymor yr hydref gyda dyddiad cau ym mis Chwefror 2021. Sue Roberts sy'n arwain ar waith cymeradwyaeth tra bod y cyfarwyddwr cynorthwyol yn cael ei recriwtio. Bydd y meini prawf yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu i gynnwys cyfeiriad at ddysgu cyfunol a'r pasbort dysgu proffesiynol a byddant yn agored i bob sector yn y sector addysg, nid ysgolion yn unig.

Mae amserlen yn cael ei llunio i'r cymdeithion fynychu cyfarfodydd bwrdd. Gofynnodd TE i'r bwrdd a oeddent am i bob cohort siarad â'r bwrdd ar yr un pryd neu a fyddai'n well ganddynt weld cohortau gwahanol ar adegau gwahanol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r agenda llesiant. Mae cydymaith wedi cynnig dadansoddi'r data a gasglwyd drwy'r arolwg ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod asiantaeth arbenigol yn cael ei chyflogi i gynnal y dadansoddiad. Mae'r tîm llesiant wrthi'n ystyried hyn. Mae'r gwaith ar lesiant hefyd yn cael ei ystyried yn fewnol. Dylai'r Academi Arweinyddiaeth fod yn modelu llesiant o fewn y system. Mae Nia Miles yn creu polisi llesiant i'r tîm ac mae'n edrych ar y potensial o gael achrediad allanol gan Buddsoddwyr mewn Llesiant.

Bydd OB3 yn ail-ymgysylltu ag ysgolion ar gyfer prosiect *Arwain Dysgu Proffesiynol* ond maen nhw'n ofalus rhag rhoi gormod o bwysau ar benaethiaid ar hyn o bryd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd angen rhyddhau'r canfyddiadau ar yr adeg iawn gan fod arweinwyr wedi'u gorlethu braidd gan gyfarwyddyd a chanllawiau. Mae dyddiadau cwblhau *Ymholi, Arloesi, Archwilio!* wedi'u hymestyn er mwyn caniatáu i ysgolion ddal i fyny.

Diolchodd SD i TE am ei hadroddiad a gwaith caled parhaus y timau.

Gadawodd CW y cyfarfod i gymryd galwad

Croesawodd SD y ffaith fod cylchlythyr allanol yn cael ei gyflwyno yn lle'r bwletin mewnol a chytunodd y dylai gwaith da'r Academi gael ei rannu'n eang.

Gofynnodd SD i'r bwrdd am eu barn ar gymdeithion yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol, a chadarnhaodd y bwrdd y byddai'n fwy buddiol clywed gan un cohort ym mhob cyfarfod (gan ganiatáu i'r bwrdd glywed gan bob un o'r 3 cohort ddwywaith y flwyddyn). Pwysleisiodd PM yr angen i sicrhau bod diben y drafodaeth yn glir i'r cymdeithion yn seiliedig ar swyddogaeth y bwrdd. Mae'r bwrdd yn canolbwyntio ar yr elfennau strategol yn hytrach na'r gweithredol. Mae DP yn awyddus i glywed mwy am les cymdeithion, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae SD wedi'i chalonogi'n fawr gan yr adborth gan gohort 3 yn dilyn eu proses ymsefydlu. Cadarnhaodd TE fod y sesiynau o fudd mawr. Er bod y tîm yn ansicr sut y byddai'r profiad dysgu'n gweithio ar-lein, roedd yn brofiad ysbrydoledig iawn i'r cymdeithion. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn hefyd ynglŷn â chyfres weminar *Datgloi Arweinyddiaeth*.

Gofynnodd RJ a oedd perygl o fod yn rhywbeth 'tymor byr' gyda'r swyddi secondio 12 mis, a gofynnodd a oedd potensial i'w hymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Cadarnhaodd TE fod yr arian a gariwyd drosodd o'r cyfrif treth gorfforaeth yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r secondiadau yn rhannol ac na fyddai unrhyw sicrwydd o ragor o gyllid eleni. Byddai cyllidebau yn y dyfodol yn destun lefelau uwch o graffu a chyfyngu felly does dim sicrwydd beth fydd yr Academi Arweinyddiaeth yn gallu ei ariannu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd SD y byddai'n bwysig profi gwerth unigryw'r Academi Arweinyddiaeth a chyfraniad hollbwysig secondeion ati.

Ailymunodd CW â'r cyfarfod.

Gofynnodd RJ a oedd y data a gasglwyd yn yr arolwg llesiant yn canolbwyntio ar ddychwelyd i'r ysgol ac os felly, a oedd yn gyfyngedig o ran amser ac mewn perygl o fod yn amherthnasol. Cadarnhaodd TE fod yr arolwg yn ymwneud â lles arweinwyr yn gyffredinol, nid dim ond yn ystod y pandemig. Gofynnodd RJ a oedd archwiliad o waith llesiant arall yn y sector wedi'i gynnal. Mae RJ yn gweithio gyda GwE sydd hefyd yn gweithio ar faterion llesiant, a phwysleisiodd bwysigrwydd cydlynu ymdrechion i osgoi gweithio'n unigol ac ailadrodd gwaith. Cadarnhaodd TE fod Nia Miles wedi cael y dasg o ddysgu am waith llesiant eraill o fewn y system. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd, ond mae'n ymwneud â lles plant, yn hytrach nag arweinwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith llesiant yr Academi Arweinyddiaeth.

Tynnodd CW sylw at y ffaith y dylai'r Academi Arweinyddiaeth weithio er budd penaethiaid, a rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch llesiant.

Mae MJ yn credu ei bod yn syniad da gwneud cais am achrediad allanol gan Buddsoddwyr mewn Llesiant gan ei fod yn arwydd o ansawdd. Yn aml, ceir archwiliad rhagarweiniol i asesu addasrwydd cyn comisiynu'r prif asesiad i atal gwariant diangen pan nad yw sefydliad yn barod.

Diolchodd SD i'r bwrdd am eu sylwadau.

5. Cynllun Corfforaethol Diwygiedig

Ymunodd CL â'r cyfarfod i gyflwyno drafft yr adroddiad blynyddol diwygiedig i'r bwrdd. Cafodd y cynllun corfforaethol ei adolygu'n flynyddol ym mis Mehefin 2020. Canfu'r adolygiad fod nifer o alwadau adrodd ar y cynllun yn cymryd llawer o wahanol fformatau a oedd yn rhoi pwysau ar y tîm. Mae'r cynllun corfforaethol diwygiedig yn ceisio dwyn ynghyd holl ddyheadau a chynlluniau'r Academi Arweinyddiaeth mewn un ddogfen fel bod yr adroddiadau'n symlach ac yn gallu dangos effaith yn well.

Mae'r ddogfen yn agor gyda phwrpas yr Academi Arweinyddiaeth. Cymerwyd hyn o ddogfen y cytundeb rheoli a ysgrifennwyd gan Lywodraeth Cymru pan grëwyd yr Academi Arweinyddiaeth. Nod *Y weledigaeth* yw cael tudalen sy'n crynhoi sut y dylai'r Academi Arweinyddiaeth edrych fel sefydliad, a'r hyn mae'n bwriadu ei gyflawni.

Mae *Ein Gwerthoedd* wedi'u rhestru ar wahân ar dudalen 5 ac maen nhw'n ymgorffori saith egwyddor bywyd cyhoeddus gyda gwerthoedd unigryw'r Academi Arweinyddiaeth ei hun.

Golwg lefel uchel o feysydd gwaith yr Academi Arweinyddiaeth yw *Ein Strategaeth* ac mae'n gosod strwythur ar gyfer y cynlluniau gweithredol cysylltiedig. Nodwyd 3 maes blaenoriaeth; *Corfforaethol, Datblygu Arweinyddiaeth ac Arwain Agweddau.* Nodwyd 3 ffrwd waith o dan bob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn.

Mae *Ein Hadnoddau* yn mynd i'r afael â chyfalaf proffesiynol yr Academi Arweinyddiaeth o ran y Bwrdd, y tîm, y Cymdeithion a'r rhanddeiliaid.

Yn olaf, mae *Ein Perfformiad* yn edrych ar y fframwaith *canlyniadau a thystiolaeth* arfaethedig a fydd yn nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd cystal, ac mae'n dangos pa mor effeithiol ydym i'n cyllidwyr er mwyn pennu sail ariannu ddiogel wrth symud ymlaen.

Mae'r *Model Rhesymeg* yn Atodiad A yn dangos mewnbynnau, allbynnau a chanlyniad yr Academi Arweinyddiaeth yn nhermau'r weledigaeth ar gyfer 2025. Yn olaf, ychwanegwyd *Organogram* diweddaraf yn Atodiad B sy'n lliw-godio'r ffrydiau gwaith ac yn dangos yr adnoddau a ddyrennir i bob un. Bydd angen diweddaru hyn cyn ei gyhoeddi i gynnwys y cymdeithion a thynnu sylw at y ffaith bod yr Academi Arweinyddiaeth yn gallu eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffrydiau gwaith.

Mae SD yn credu bod y cynllun diwygiedig yn gydlynol, yn symlach ac yn llawn ffocws, ac yn dangos bod yr Academi Arweinyddiaeth yn sefydliad deinamig.

Gofynnodd SD a oedd yn werth dyddio'r organogram rhag ofn y bydd newidiadau i'r strwythur dros y 4 blynedd nesaf. Diolchodd SD i CL am y darn ardderchog hwn o waith.

Cytunodd MJ ei fod yn waith rhagorol, a gofynnodd a oedd unrhyw risgiau gweithredu ychwanegol o gofio natur uchelgeisiol y cynllun, o'i gymharu â'r fersiwn flaenorol.

Mae TE yn cytuno ei fod yn uchelgeisiol ac yn credu y bydd risgiau'n deillio o allu'r Academi Arweinyddiaeth i gwblhau'r ffrydiau gwaith. Mae'r diben wedi aros yr un fath ers y dechrau, ac felly'n gyfyngol iawn o safbwynt diffyg capasiti i'w gyflawni. Mae'r pandemig hefyd wedi golygu nad yw gweithgareddau wedi symud mor gyflym ag y byddai'r tîm wedi'i hoffi. Mae yna risgiau, ond bydd angen eu hystyried wrth i ni symud ymlaen. Bydd risg allweddol yn ymwneud ag enw da a'r Academi Arweinyddiaeth yn dilyn addewidion y ddogfen hon. Mae angen i'r Academi Arweinyddiaeth ymateb ac addasu i newidiadau o fewn y sector.

Gofynnodd MJ a ragwelwyd problemau o ran gorgyffwrdd â ffrydiau gwaith sefydliadau haen ganol eraill. Cytunodd TE y gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd a pheth tensiwn o bosibl, ond mae angen i'r Academi Arweinyddiaeth ddod o hyd i'w lwybr a chadarnhau ei safle yn y sector wrth feithrin perthynas â'r sefydliadau eraill yn yr haen ganol.

Mae JG yn credu ei fod yn bapur da iawn ond holodd a oes angen egluro'r term 'haen ganol' gan nad yw aelodau o'r cyhoedd efallai'n deall y term. Hefyd, gofynnodd JG a ddylid cyfeirio at golegau addysg bellach a llywodraethwyr yn y cynllun. Gallai fod yn rhywbeth yng nghyflwyniad TE yn hytrach nag yn y weledigaeth ei hun. Yna gofynnodd JG a oedd y llinell yn *cyfoethogi bywydau plant* yn briodol o ystyried nad oes gan yr Academi Arweinyddiaeth unrhyw gysylltiad uniongyrchol â phlant, ac a fyddai *galluogi cyfoethogi bywydau plant* yn well. Gofynnodd JG hefyd a ddylid cynnwys amrywiaeth yn yr adran gwerthoedd. Diolchodd TE i JG am ei sylwadau.

Diolchodd PM i TE a CL, a chroesawodd natur gryno'r cynllun. Perygl cynllun o'r math hwn yw y gall y symlrwydd weithiau guddio'r materion a'r risgiau y gellid eu hwynebu. Mae angen i'r Bwrdd allu defnyddio'r adroddiad hwn i ganfod canlyniadau ac effaith y gwaith sydd wedi'i wneud. Mae angen i'r risgiau a gyflwynir gan y cynllun newydd gael eu hadlewyrchu yng nghofrestr risg a fframwaith sicrwydd y bwrdd. Hefyd, mae PM yn ei chael hi'n anodd deall beth yw'r Dangosyddion Perfformiad Interim o ddarllen yr adroddiad. Defnyddiwyd geiriau fel *array* a *suite* yn y Saesneg sy'n anodd iawn eu mesur a bydd yn anodd dangos llwyddiant y cynllun i randdeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru.

Mae AS yn credu bod y ddogfen yn enghraifft dda iawn o gynllun strategol ond yn cwestiynu trefn y meysydd blaenoriaeth strategol. Er bod sut mae sefydliad yn cael ei redeg yn bwysig, dylai ymddangos ar ôl y ddau faes allweddol, Datblygu Arweinyddiaeth ac Arwain Agweddau. Mae'r gair *blaenoriaethau* yn dangos trefn bwysig.

Gofynnodd RJ ai gweledigaeth neu gynllun yw'r ddogfen hon. Nid yw'n bosibl i'r bwrdd farnu llwyddiant yn erbyn gweledigaeth felly mae angen i hyn fod yn gliriach.

Mae angen i'r cynllun hwn fod yn gadarn er mwyn cyflawni rhai newidiadau gwleidyddol difrifol o fis Ebrill 2021 ymlaen. Mae RJ yn hoffi'r organogram ac yn credu ei fod yn berffaith glir ond mae hefyd yn credu bod angen ychwanegu'r cymdeithion a rhanddeiliaid.

Diolchodd TE i'r bwrdd am eu sylwadau cadarnhaol a'u cyngor ar gyfer gwelliannau. Diben cyflwyno fersiwn ddrafft o'r adroddiad oedd er mwyn cymryd sylwadau ac awgrymiadau. Bydd TE yn ystyried ychwanegu cyfeiriad at Addysg Bellach a Llywodraethwyr er y bydd y meysydd hyn yn cael eu cynnwys yn fanwl yn y cynlluniau gweithredol. Mae TE yn awyddus i'r term *haen ganol* aros gan mai dyma'r derminoleg a ddefnyddir gan y sector a dogfen *Cenhadaeth ein Cenedl.* Cytunodd TE hefyd y dylai'r gwerthoedd gyfeirio at amrywiaeth ac y byddant yn trafod gyda'r tîm i sicrhau bod y derminoleg gywir yn cael ei defnyddio. Ystyriwyd sylwadau PM ac MJ am risg hefyd, a bydd yn edrych ar y gofrestr risg yng nghyd-destun y cynllun corfforaethol diwygiedig cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. O ran y meysydd blaenoriaeth a'r awgrymiadau sgorio, mae'r ffordd y cawsant eu nodi yn y cynllun corfforaethol yr un fath â'r llythyr cylch gwaith. Awgrymodd CL ein bod yn ystyried y geiriad a ddefnyddiwyd er mwyn dod o hyd i derm llai hierarchaidd na blaenoriaethau.

Awgrymodd CW y dylid creu diagram yn cynnwys pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd i ddangos haenau'r cynllun corfforaethol yn well.

Gofynnodd DP a oedd yr amcanion llesiant yn gorgyffwrdd ag agenda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid yw TE wedi trafod gwaith yr Academi Arweinyddiaeth gyda Sophie Howe, ond gan mai rhywbeth i arweinwyr addysgol yn unig yw gwaith yr Academi Arweinyddiaeth, nid yw'n rhagweld y bydd unrhyw ddyblygu.

Gofynnodd SD i'r aelodau e-bostio unrhyw sylwadau pellach at TE ac CL erbyn dydd Llun 7 Medi.

Bydd TE a CL yn ystyried popeth a drafodwyd heddiw wrth baratoi'r fersiwn derfynol.

Gadawodd CL y cyfarfod.

6. Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Bwrdd

Yn dilyn y cyfarfod blaenorol, gofynnodd SD i aelodau'r bwrdd hefyd anfon unrhyw ddiwygiadau awgrymedig i'r cylch gorchwyl i'w hystyried. Dim ond awgrymiadau gan JG mae SD wedi'u derbyn hyd yma. Awgrymodd SD fod angen ychwanegu gwybodaeth am benodiadau i'r bwrdd at y cylch gorchwyl. Cytunodd y bwrdd y dylid gwneud diwygiadau a awgrymwyd gan SD a JG i'r ddogfen

Soniodd RJ fod y cylch gorchwyl yn nodi bod treuliau a hawlir gan y bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, ond nad yw'n gallu dod o hyd iddynt. Cadarnhaodd KP fod y treuliau a hawlir gan aelodau'r bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn y cyfrifon blynyddol mewn gwirionedd, sydd ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau. Awgrymodd RJ fod angen diwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu hyn.

Bydd KP yn newid hyn a bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y bwrdd i'w llofnodi.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau'r agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Mae angen newid dyddiad cyfarfod nesaf y bwrdd ym mis Tachwedd oherwydd gwrthdaro i rai aelodau. **Bydd KP yn dosbarthu dyddiadau newydd awgrymedig yn dilyn y cyfarfod.**

Bydd angen cyfarfod anghyffredin o'r bwrdd ddiwedd mis Medi i glywed yr adroddiad archwilio allanol. Does dim angen i holl aelodau'r bwrdd fod yn bresennol er bod angen cworwm. **Bydd KP yn dosbarthu'r dyddiad yn dilyn y cyfarfod.**

Cytunodd pob aelod o'r bwrdd nad oedd wythnos gyntaf mis Medi yn gyfleus ar gyfer cyfarfodydd bwrdd yn y dyfodol, ac y dylai unrhyw gyfarfod a drefnwyd ym mis Medi 2021 fod tua diwedd y mis.

Diolchodd SD i'r aelodau a'r staff am eu cyfraniad, a daeth y cyfarfod i ben am 11:50

Cofnod o'r Camau

Rhif.		Perchennog	Dyddiad cau	Statws
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol	SD	Medi 2019	Parhaus
105	Agenda - Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod bwrdd y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yma	KP	Medi 2020	Gohiriwyd
115	Creu ail gofrestr risg ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor A & RA	Ionawr 2020	Gohiriwyd
134	Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod y cwricwlwm newydd	TW/CW	Medi 2020	Gohiriwyd
143	Ystyried strategaeth ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion cyn yr etholiad	TE	Medi 2020	Parhaus
144	Archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad yn y Senedd i lansio strategaeth llesiant	TE/KP	Medi 2020	Gohiriwyd
145	Y wybodaeth ddiweddaraf am ailwampio'r Bwrdd i Lywodraeth Cymru	SD	1 Awst 2020	Cwblhawyd

146	Cymryd sylwadau ar fesurau Perfformiad y Bwrdd ac adrodd yn ôl i'r bwrdd	JG	Tachwedd 2020	
148	Anfon sylwadau ar gylch gorchwyl cyn y cyfarfod nesaf i'r cadeirydd	Pawb	Medi 2020	Cwblhawyd
149	Llofnodi'r gyllideb ddiwygiedig ar ôl dosbarthu'r ddogfen	Pawb	Tachwedd 2020	
150	Dosbarthu dyddiadau newydd ar gyfer cyfarfod bwrdd mis Tachwedd	KP	Medi 2020	
151	Cadarnhau dyddiad cyfarfod anghyffredin y bwrdd ym mis Medi	KP	Medi 2020	
152	Gwneud diwygiadau i'r cylch gorchwyl	KP	Tachwedd 2020	
153	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	Pawb	Medi 2021	